# Nodi a Chefnogi Plant Carcharorion yng Nghymru

## Achos Seiliedig ar Hawliau dros Ddiwygio Deddfwriaethol a Pholisi

**Medi 2026**

**Dr Rhian Croke, Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru**

**Aimee Hutchinson, Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact)**

### Crynodeb Gweithredol

Amcangyfrifir ar unrhyw adeg benodol bod gan 5,000 o blant yng Nghymru riant sydd yn y carchar, ac y bydd tua 1 o bob 15 plentyn yng Nghymru (7%) yn dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn ystod ei blentyndod.[1] Er bod y ffigurau'n uchel, bron nad yw'r plant hyn yn gwbl anweledig o hyd i'r gwasanaethau cyhoeddus sydd i fod i'w diogelu. Nid oes dyletswydd statudol yn unman yn y systemau cyfiawnder, addysg, iechyd na gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr i nodi plentyn pan fydd ei riant yn cael ei garcharu, ac oherwydd hynny mae'n amhosibl darparu cefnogaeth. Mae nodi plentyn yn dibynnu ar ddatgeliad ar hap, gonestrwydd teulu sy'n wynebu stigma, a disgresiwn gweithwyr proffesiynol unigol.

Mae'r papur briffio hwn yn amlinellu'r achos dros newid. Mae'n dadlau bod angen mwy na bwriadau da a phrosiectau peilot i gau'r bwlch hwn a sicrhau nad yw'r cohort yma o blant yn anweledig. Mae'r bwlch yn cael ei achosi gan fethiant strwythurol sy'n torri fframwaith hawliau plant Cymru, yn tanseilio pwrpas statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn golygu nad yw hawliau presennol y cohort hwn dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu gweithredu, ac yn eistedd mewn tensiwn uniongyrchol â'r dadansoddiad cyfansoddiadol a nodwyd gan Gomisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru. Mae'r papur yn seiliedig ar y sail dystiolaeth gynyddol yng Nghymru, gan gynnwys ymchwil ASPIRE a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a thystiolaeth reng flaen ac arbenigedd ymarfer Pact ei hun, gan gynnwys y papur a gyhoeddwyd ganddo ym mis Ebrill 2025 *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*, ynghyd â dau ddegawd o waith uniongyrchol gyda phlant carcharorion.[2] Mae hefyd yn seiliedig ar ymrwymiadau gwleidyddol sydd eisoes ar y bwrdd, gan gynnwys addewid maniffesto Plaid Cymru yn 2026 ar Ddeddf Hawliau Dynol i Gymru ac ar dlodi plant, a'r cynsail a osodwyd gan y sylfaen statudol a roddir yn awr i Ymgyrch Encompass yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r ddau sefydliad yn cytuno bod nodi yn angenrheidiol ac y dylai fod yn digwydd ers blynyddoedd; mae'r ddau hefyd yn bendant na ddylai dadl gyhoeddus am "droseddu o'r naill genhedlaeth i'r llall" achosi i ni drin plant carcharorion fel risgiau ar gyfer y dyfodol yn hytrach

---

[1] Llywodraeth Cymru, ASPIRE (Rhoi Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol i Ysgolion a Charchardai ar Waith) (2025) https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html

[2] Keen-Downs, A., Hutchinson, A., Beesley, L., Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*, Ebrill 2025. https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

na phlant sydd â'u hawliau, eu hanghenion a'u gwydnwch eu hunain.[3]

Mae'r papur yn cloi â chyfres o argymhellion diriaethol, sy'n canolbwyntio ar ddyletswydd statudol i nodi plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar, model cefnogi amlasiantaethol cenedlaethol yn cael ei arwain drwy ysgolion, a chymhwyso dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant er mwyn cau'r bwlch rhwng ymrwymiadau hawliau Cymru â realiti go iawn y grŵp hwn o blant.

Mae ymrwymiad penodol Cymru i hawliau plant yn ei rhoi mewn sefyllfa unigryw i arwain y ffordd wrth gefnogi plant carcharorion. Mae'r briff hwn yn galw ar lunwyr polisïau ac ymarferwyr i gydnabod nad cyfle yn unig yw hwn, ond cyfrifoldeb sy'n mynnu ein bod yn gweithredu.

## 1. Pwrpas

Mae'r papur hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru gytuno:

1. Bod plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn grŵp ar wahân, sydd â hawliau, ac sy'n cael eu gadael i lawr ar hyn o bryd gan nad oes mecanwaith systematig ar gyfer nodi a chefnogi;

2. Nid mater dewisol yw mynd i'r afael â'r methiant hwn. Mae'n ofynnol yn unol â rhwymedigaethau statudol presennol Llywodraeth Cymru dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a byddai'n gweithredu hawliau sy'n bodoli'n barod dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer y cohort hwn;

3. Dylai Cymru fynd ati, heb oedi ymhellach, i ddatblygu a gweithredu model nodi a chefnogi statudol cenedlaethol ar gyfer y cohort hwn, gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd yn barod gan Pact a thrwy'r rhaglen ASPIRE.

## 2. Cyflwyniad: Poblogaeth Anweledig

Mae plant sydd â rhiant yn y carchar wedi cael eu disgrifio yn y llenyddiaeth ers tro fel "dioddefwyr anweledig" y system cyfiawnder troseddol, neu fel rhai sy'n treulio "dedfryd gudd" ochr yn ochr â'u rhiant.[4] Maent yn cael eu cosbi gan broses nad oes ganddynt unrhyw lais ynddi. Yn anaml iawn y mae'r llysoedd sy'n gorfodi'r broses yn ystyried y plant hyn, ac fel arfer cânt eu gadael i wasanaethau statudol eu darganfod drostyn eu hunain, os ydynt yn cael eu darganfod o gwbl.

Ledled Cymru a Lloegr, mae ystadegau swyddogol o dan ddatblygiad yn amcangyfrif bod 192,912 o blant yn dioddef gan fod rhiant yn y carchar rhwng Hydref 2021 a Hydref 2022,[5] ac mae dadansoddiad Pact ei hun yn amcangyfrif bod dros 100,000 o blant â rhiant yn y carchar ar unrhyw ddiwrnod penodol.[6] Yng Nghymru'n benodol, mae amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ac ymchwil ASPIRE yn rhoi ffigwr o 5,000 o blant ar unrhyw adeg benodol, â thua 1 o bob 15 plentyn

---

[3] Ibid.

[4] Ymchwil y Senedd (2014) '*Dedfryd Gudd'? Plant sy'n dioddef gan fod eu rhieni wedi'u carcharu*, Ymchwil y Senedd. https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/dedfryd-gudd-plant-sy-n-dioddef-gan-fod-eu-rhieni-wedi-u-carcharu/

[5] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2024), *Official Statistics in Development: Estimates of children with a parent in prison*, gov.uk. https://www.gov.uk/government/statistics/estimates-of-children-with-a-parent-in-prison/official-statistics-in-development-estimates-of-children-with-a-parent-in-prison

[6] Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact) (2023) *Number of children with a parent in prison right now tops 100,000* https://www.prisonadvice.org.uk/latest/news/number-of-children-with-a-parent-in-prison-right-now-tops-100-000/; a Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*. https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

(7%) yn dioddef gan fod rhiant yn y carchar ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod.[7]

Roedd maniffesto plaid Lafur y DU ym mis Gorffennaf 2024 yn cynnwys ymrwymiad y bydd "plant y rhai sy'n cael eu carcharu … yn cael eu nodi ac yn cael cynnig cefnogaeth er mwyn torri'r cylch", gan gydnabod eu bod yn wynebu "llawer mwy o risg o gael eu tynnu i mewn i droseddu na'u cyfoedion."[8] Fel y nodwyd gan Pact yn ei ymateb i'r ymrwymiad hwn, mae'r geiriad hwn wedi cael ei groesawu gan lawer o elusennau rheng flaen, ond mae wedi cael ei feirniadu hefyd gan rai elusennau oherwydd bod risg iddo bortreadu plant diniwed fel "troseddwyr y dyfodol" yn hytrach na phlant sydd angen cael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy eu hawl eu hunain.[9] Mae'r briff hwn o'r farn nad yw hwn yn ddewis cywir: mae'n bosibl cynllunio proses nodi mewn ffordd sy'n diogelu plant heb eu stigmateiddio, ac mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid ei wneud.

Mae un ffaith foel yn gyffredin i bob un o'r ffigurau hyn: nid oes mecanwaith reolaidd, yn unman yn y systemau cyfiawnder, addysg, iechyd na gofal cymdeithasol, sy'n nodi'r plant hyn. Mae ymchwil ASPIRE yn eu disgrifio'n benodol fel "poblogaeth gudd", nad yw gwasanaethau statudol yn gwybod amdanynt yn aml oherwydd stigma a diffyg proses nodi systematig.[10] Yng ngeiriau'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy drwy ymchwil Llywodraeth Cymru, mae naw o bob deg yn credu y dylai ysgolion gael gwybod pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar.[11] Yn ymarferol, fodd bynnag, mae hynny'n dibynnu a yw rhiant yn dewis, neu yn gallu, datgelu hynny.

Nid amryfusedd gweinyddol bach yw hwn. Mae'n fwlch strwythurol sydd â chanlyniadau uniongyrchol a mesuradwy o ran diogelwch, addysg, ac iechyd meddwl plant, a'u cyfleoedd mewn bywyd. Mae'r papur hwn yn amlinellu bod hwn yn fwlch sy'n eistedd mewn tensiwn uniongyrchol â'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy'n cefnogi hawliau plant yng Nghymru.

## 3. Y Sail Dystiolaeth

### 3.1 Llesiant, trawma ac iechyd meddwl

Mae carcharu rhiant yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), sy'n gysylltiedig â risg sylweddol uwch o gysylltiad â gofidiau eraill, gan gynnwys tlodi, ansefydlogrwydd teuluol a thrawma.[12] Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn wynebu tair gwaith cymaint y risg o anawsterau iechyd meddwl o

---

[7] Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru; ASPIRE (2025), *Gwella canlyniadau llesiant ac addysgol i blant yng Nghymru yr effeithir arnynt gan riant yn y carchar*. https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html

[8] Keen-Downs, A., Hutchinson, A., Beesley, L., Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*, April 2025. https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

[9] Ibid.

[10] Llywodraeth Cymru, ASPIRE (Rhoi Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol i Ysgolion a Charchardai ar Waith) (2025) https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html; CASCADE Wales, *Rhaglen ASPIRE – Model cymorth i blant yng Nghymru sydd â rhiant yn y carchar*. https://cascadewales.org/cy/research/aspire-cy/

[11] Llywodraeth Cymru, ASPIRE (Rhoi Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol i Ysgolion a Charchardai ar Waith) (2025) https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html

[12] Llywodraeth Cymru (2021) Adolygiad o'r Polisi ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE): Adroddiad https://www.llyw.cymru/adolygiad-or-polisi-ynghylch-profiadau-niweidiol-yn-ystod-plentyndod-adroddiad-html; Turney, K. (2018) 'Adverse childhood experiences among children of incarcerated parents', *Children and Youth Services Review*, 89, tt.218. https://www.researchgate.net/publication/324766323_Adverse_childhood_experiences_among_children_of_incarcerated_parents

gymharu â'u cyfoedion,[13] yn ogystal â phrofiadau o alar, stigma ac ynysu.[14] Mae ymchwil ASPIRE yn nodi "colled amwys" fel mecanwaith niwed sy'n benodol i'r grŵp hwn: rhiant sy'n gorfforol absennol ond yn seicolegol bresennol, yn achosi math o alar nad yw'n cael ei gydnabod na'i gefnogi yn aml iawn gan y gwasanaethau sydd o amgylch y plentyn.[15]

### 3.2 Effaith addysgol

Mae plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn profi risg uwch o bresenoldeb gwael, cyrhaeddiad is, gwaharddiad o'r ysgol, ac anawsterau ymddygiadol, ynghyd â stigma ac ynysu cymdeithasol.[16] Mae ASPIRE yn nodi ysgolion fel y lleoliad pwysicaf ar gyfer nodi a chefnogi. Mae ysgolion eisoes yn cadw gwybodaeth am y plentyn a'r teulu, maent yn ei weld yn ddyddiol, ac maent yn y sefyllfa orau er mwyn sylwi ar newidiadau mewn ymddygiad neu lesiant. Er hyn, mae arferion ledled Cymru yn anghyson ar hyn o bryd ac yn dibynnu ar ymwybyddiaeth staff unigol yn hytrach na dull systematig.[17]

### 3.3 Teulu, incwm ac anfantais ddaearyddol

Mae teuluoedd sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn aml yn profi colli incwm yn sydyn, ansefydlogrwydd tai, mwy o ddyled, a threfniadau gofalu ac ymlyniad presennol yn chwalu.[18] Mae'r effeithiau hyn yn waeth i deuluoedd yng Nghymru gan fod carcharorion o Gymru, yn enwedig menywod, yn cael eu lleoli yn aml mewn carchardai yn Lloegr, gan ychwanegu costau teithio sylweddol a phellter i sefyllfa sydd eisoes yn anodd.[19]

### 3.4 Menywod sydd yn y carchar a'r argyfwng i famau

Mae effeithiau niweidiol carcharu rhiant ar eu gwaethaf pan gaiff mam plentyn ei charcharu. Gan mai mamau at ei gilydd sy'n bennaf gyfrifol am ofalu am blant, mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynifer â 95% o blant yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi pan fydd eu mam yn mynd i'r carchar, gan arwain at ansefydlogrwydd tai ar unwaith ac amharu ar drefniadau gofal.[20] Nid oes carchar i fenywod yng Nghymru. Mae pob menyw yng Nghymru sy'n cael dedfryd o garchar, drwy ddiffiniad, yn cael ei gwahanu oddi wrth ei phlant a'i hanfon dros y ffin, fel arfer i Garchar Eastwood Park neu Garchar Styal, sy'n aml dros 100 milltir i ffwrdd.[21]

---

[13] Jones, A., Gallagher, B., Manby, M., Robertson, O., Schützwohl, M., Berman, A.H., Hirschfield, A., Ayre, L., Urban, M., Sharratt, K. a Christmann, K. (2013) *COPING: Children of Prisoners: Interventions and Mitigations to Strengthen Mental Health*. Adroddiad Prosiect Terfynol. Huddersfield: Prifysgol Huddersfield. https://childrenofprisoners.eu/wp-content/uploads/2013/12/COPINGFinal.pdf

[14] Lockwood, K., Raikes, B. (2016), 'A difficult disclosure', in Reeves, C. (gol.), *Experiencing Imprisonment*, Routledge. https://www.routledge.com/Experiencing-Imprisonment-Research-on-the-experience-of-living-and-working/Reeves/p/book/9781138304765

[15] Llywodraeth Cymru, ASPIRE (Rhoi Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol i Ysgolion a Charchardai ar Waith) (2025) https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html; CASCADE Wales, *Rhaglen ASPIRE*. https://cascadewales.org/cy/research/aspire-cy/

[16] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2018) *What About Me? The impact on children when mothers are involved in the criminal justice system*. https://prisonreformtrust.org.uk/publication/what-about-me-the-imPact-on-children-when-mothers-are-involved-in-the-criminal-justice-system/

[17] Llywodraeth Cymru, ASPIRE (Rhoi Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol i Ysgolion a Charchardai ar Waith) (2025) https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html; CASCADE Wales, *Rhaglen ASPIRE*. https://cascadewales.org/cy/research/aspire-cy/

[18] Boswell, G. (2018). Imprisoned Fathers and their Children: A Reflection on Two Decades of Research. Child Care in Practice, 24(2), 212–224. https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/13575279.2017.1420037

[19] Rees, A., Maxwell, N., Lyttleton-Smith, J., a Staples, E. (2022). Visiting Mum: Children's Perspectives on a Supported Scheme When Visiting Their Mother in Prison. *Child Care in Practice*, *28*(3), 247–262. https://doi.org/10.1080/13575279.2020.1769025. https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/13575279.2020.1769025

[20] ASPIRE (2025) ac ymchwil cysylltiedig wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i fenywod yn y ddalfa a threfniadau gofalu. https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html

[21] Pwyllgor Materion Cymreig (2026), *Jagged Justice: Prisons, Probation and Rehabilitation in Wales* UK Parliament. https://committees.parliament.uk/publications/53467/documents/298896/default/ (gweler hefyd grynodeb y pwyllgor:

Cadarnhawyd hyn gan adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig yn 2026, *Jagged Justice: Prisons, Probation and Rehabilitation in Wales*. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'n glir bod diffyg carchardai i fenywod yng Nghymru yn golygu bod pob dedfryd o garchar a roddir i fenyw yng Nghymru yn arwain at ei gwahanu oddi wrth ei phlant a'i hanfon dros y ffin, ac mae'n canfod bod nifer y menywod sy'n cael dedfryd o garchar yn codi yn hytrach na disgyn, gan gynyddu maint y niwed i blant dros gyfnod.[22] Mae'r Pwyllgor hefyd yn codi pryder difrifol ynglŷn â hunan-niweidio ymhlith menywod a gedwir yn y carchardai sy'n cadw'r rhan fwyaf o droseddwyr benywaidd Cymru, ac yn argymell y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder leihau cost galwadau ffôn o'r carchar, yn benodol er mwyn helpu menywod i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd; canfyddiad sy'n uniongyrchol berthnasol i ddiogelwch seicolegol plant ac i'r rhagolygon ar gyfer ailuno diogel.[23]

Mae'r rhan fwyaf o'r menywod o Gymru sy'n cael eu hanfon i'r carchar yn cael dedfrydau byr o garchar. Yn 2024, derbyniodd 78% o'r menywod a ddedfrydwyd i'r carchar ar unwaith yng Nghymru ddedfrydau o 12 mis neu lai,[24] ac mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos bod tua 69% o'r menywod sy'n mynd i'r carchar wedi cyflawni troseddau di-drais.[25] Mae'r dedfrydau hyn yn rhy fyr ar gyfer ailsefydlu ystyrlon, ond yn ddigon hir i blentyn golli ei fam, ei gartref a'i le mewn ysgol. Roedd Comisiwn Thomas yn rhybuddio'n benodol na ddylid defnyddio carchar i fenywod yn yr amgylchiadau hyn, gan argymell rhwydwaith o Ganolfannau Preswyl i Fenywod fel dewis arall yn lle carchar, er mwyn cadw mamau yng Nghymru a sicrhau nad yw troseddwyr di-drais yn cael eu halltudio i Loegr.[26] Roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo cyn hyn i Ganolfan Breswyl 12 gwely i fenywod yn Abertawe; nid oes llawer wedi digwydd gan nad oes amserlen wedi'i chadarnhau, sefyllfa y mae'r Pwyllgor Materion Cymreig bellach wedi'i beirniadu'n uniongyrchol ac yn gyhoeddus, gan annog y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gadarnhau ei chynlluniau "cyn gynted ag y bo modd" ac i sicrhau bod y ganolfan yn ddewis arall gwirioneddol yn lle carchar, "nid carchar ym mhopeth ond enw."[27]

### 3.5 Y risg o'r naill genhedlaeth i'r llall: beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos a beth nad yw'n ei ddangos

Mae adolygiad Pact o'r ymchwil yn bwysig yma, oherwydd mae'n ymwrthod â'r ddau begwn sydd i'w clywed yn aml mewn dadleuon cyhoeddus. Nid yw'r hen honiad bod chwech o bob deg o blant troseddwyr hefyd yn mynd yn eu blaenau i droseddu yn cael ei ystyried yn ddilys mwyach ac yn anaml iawn y mae'n cael ei ddefnyddio yn y sector.[28] Ond nid yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r honiad arall ychwaith, hynny yw, nad oes risg uwch o gwbl.

Canfu adolygiad systematig a meta-ddadansoddiad gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol California, Berkeley a Phrifysgol Caergrawnt yn 2017, a oedd yn crynhoi canlyniadau 23 sampl mewn 25 o gyhoeddiadau a thros 3.4 miliwn o blant, fod y risg o ymddygiad troseddol tua 2.4 gwaith yn uwch i

---

https://committees.parliament.uk/committee/162/welsh-affairs-committee/news/214164/prisons-probation-and-rehabilitation-in-wales-overcrowded-prisons-and-workforce-pressures-undermining-safety-and-rehabilitation-mps-warn/)

22 Ibid.

23 Ibid.

24 Pwyllgor Materion Cymreig (2026), *Jagged Justice: Prisons, Probation and Rehabilitation in Wales* (2026), Senedd y DU. https://committees.parliament.uk/publications/53467/documents/298896/default/

25 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2023) *Offender Management Statistics Quarterly: October to December 2022*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2022

26 Comisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019), *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf

27 Pwyllgor Materion Cymreig 2026), *Jagged Justice: Prisons, Probation and Rehabilitation in Wales* (2026), Senedd y DU. https://committees.parliament.uk/publications/53467/documents/298896/default/ (gweler hefyd grynodeb y pwyllgor: https://committees.parliament.uk/committee/162/welsh-affairs-committee/news/214164/prisons-probation-and-rehabilitation-in-wales-overcrowded-prisons-and-workforce-pressures-undermining-safety-and-rehabilitation-mps-warn/)

28 Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*, adran 'What does the research say about intergenerational offending?'. https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

blant y mae eu rhieni wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.[29] Canfu ymchwil a gyhoeddwyd yn 2024 gan Brifysgol Bangor, a oedd yn seiliedig ar sampl o garcharorion gwrywaidd o Gymru, fod un o bob tri thad a oedd yn y carchar wedi byw gyda rhywun a oedd wedi bod yn y carchar, a bod eu plant ddwywaith mor debygol o ddod i gysylltiad â thrais domestig a thros saith gwaith yn fwy tebygol o fyw mewn cartref wedi'i effeithio gan salwch meddwl.[30] Yn yr un modd, canfu ymchwil rheolaidd gan Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Sweden fod cael rhiant yn y carchar yn ystod plentyndod yn cynyddu risg plentyn o gael ei erlyn o tua 23%, a bod gostyngiad sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol a chyflogaeth fel oedolyn.[31]

Mae asesiad Pact, sy'n cael ei gymeradwyo gan y briff hwn, yn dangos bod y risg uwch hon yn real, ond nad yw'n seiliedig ar ffawd na geneteg. Mae'n adlewyrchu effaith gronnol tlodi, amharu ar addysg, trawma, stigma ac ansefydlogrwydd teuluol, a amlinellwyd yn barod yn y papur hwn, ac sy'n gwneud unrhyw sefyllfa yn waeth, yn hytrach na nodweddion sy'n gynhenid yn y plant eu hunain. Mae plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn dangos gwydnwch rhyfeddol, ac mae llawer yn ymdrechu'n galed i greu dyfodol gwahanol iddyn nhw eu hunain.[32] Pwrpas nodi yw torri ar draws y risg gronnol yna drwy gefnogaeth gynnar, sensitif, yn hytrach na rheoli plant fel bygythiad yn y dyfodol. O ganlyniad, dylai sgwrs gyhoeddus a thrafodaeth am bolisïau ar y mater hwn osgoi iaith sy'n cyfleu plant fel "troseddwyr y dyfodol" neu fel problem "troseddu o'r naill genhedlaeth i'r llall" sydd angen ei rheoli, a dylid rhoi sylw yn hytrach i'r ffaith fod y plant hyn, â'r gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn, yn gallu ffynnu.[33]

### 3.6 Lleisiau'r plant a'r bobl ifanc eu hunain

Mae gwaith uniongyrchol Pact gyda phlant a phobl ifanc sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar, drwy ei siarter 'Ein Llais' (2016), ymchwil 'Hear Our Voice' (2018) a'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc bresennol (2025 – parhaus) ar gyfer pobl ifanc 16-20 oed â phrofiad personol yn darparu tystiolaeth glir iawn ynglŷn â beth yn union mae ar y cohort hwn ei eisiau gan yr oedolion a'r sefydliadau sydd o'u cwmpas.[34] Mae pobl ifanc wedi dweud wrth Pact yn gyson:

- "Peidiwch â'n labelu ni. Nid ni sydd wedi troseddu."
- "Mae arnon ni eisiau i athrawon a gweithwyr proffesiynol ddeall nad "sefyllfa" yn unig ydy cael rhiant yn y carchar i blentyn neu berson ifanc. Mae hefyd yn golygu dryswch, cywilydd, dicter, a galar ac efallai nad oes ganddyn nhw'r geiriau i'w fynegi".
- "Mae arnon ni eisiau gallu siarad â rhywun. Ond dydyn ni ddim eisiau i bawb wybod ein busnes a mân siarad amdanon ni."
- "Os baswn i wedi teimlo hyd yn oed yn weddol ddiogel neu bod rhywun yn fy neall i, efallai na fyddwn i wedi teimlo bod yn rhaid i mi guddio darn mor fawr o 'mywyd i."
- "Yn yr ysgol, y cyfan rydyn ni ei eisiau ydy bod yn normal."

---

29 Besemer, S., Ahmad, S.I., Hinshaw, S.P. a Farrington, D.P. (2017), 'A systematic review and meta-analysis of the intergenerational transmission of criminal behavior', *Aggression and Violent Behavior*, 37, tt. 161–178. https://doi.org/10.1016/j.avb.2017.10.004

30 Ford, K., Bellis, M.A., Hughes, K., Judd, N. a Barton, E.R. (2024), 'Exploring the intergenerational continuity of ACEs amongst a sample of Welsh male prisoners: A retrospective cross-sectional study', *Child Protection and Practice*, 3,100053, Prifysgol Bangor. https://doi.org/10.1016/j.chipro.2024.100053

31 Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Sweden (SOFI), Prifysgol Stockholm (2019), *What Happens to Children with Parents in Prison?* https://www.sofi.su.se/english/2.17851/research/research-news

32 Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*, adran 'What does the research say about intergenerational offending?'. https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

33 Ibid.

34 PACT (2016), *Our Voice: a charter for children and young people who have experienced a parent or brother or sister being arrested, tried and imprisoned* https://www.prisonadvice.org.uk/advocacy/our-voice/; Pact (2018), *Hear Our Voice: recommendations for action to safeguard children affected by the arrest and imprisonment of family members*. https://www.prisonadvice.org.uk/media/hu5d1cu0/hov_report_2018.pdf

Drwy'r siarter 'Ein Llais', dywedodd plant a phobl ifanc beth roedd arnyn nhw ei eisiau gan oedolion sydd mewn grym, gan gynnwys rhieni, yr heddlu, athrawon, ynadon, barnwyr, staff carchar ac elusennau. Gofynasant: am barch i'w cartrefi; am gael gwybod am leoliad a lles aelod o'r teulu a sut i gadw mewn cysylltiad; am glust i wrando gan bobl sydd ag awdurdod; am gael dewis ynglŷn ag ymweliadau a ble mae rhywun agos yn cael ei anfon i'r carchar; am gael eu deall, ac nid eu barnu; cael cynnig cefnogaeth emosiynol; a chael eu parchu drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol.[35]

Mae'r dystiolaeth hon yn uniongyrchol bwysig o ran sut mae unrhyw fodel nodi ac atgyfeirio yn cael ei ddylunio yng Nghymru. Mae plant yn gyson yn croesawu'r syniad o oedolyn gwybodus y gallan nhw ymddiried ynddo a siarad ag ef, ond maen nhw hefyd yr un mor bendant nad ydyn nhw eisiau cael eu trin fel "achos" diogelu mewn ystafell staff, neu fel "rhywun sy'n mynd i fod yn droseddwr". Rhaid i unrhyw fodel Cymreig gael ei adeiladu o amgylch y gwahaniaeth hwn o'r dechrau un, yn hytrach na'i ôl-osod ar ôl i bryderon am stigma ddod i'r amlwg.

## 4. Yr Achos Seiliedig ar Hawliau: Tirwedd Ddeddfwriaethol Unigryw Cymru

Mae Cymru mewn sefyllfa arbennig yn y DU o ran hawliau plant, ac mae'r briff hwn yn dadlau bod y sefyllfa arbennig hon yn cynnig cyfle, a chyfrifoldeb hefyd, i weithredu ar ran plant carcharorion. Mae tair deddfwriaeth Gymreig yn bwysig yma: Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r fframwaith hawliau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy iddo; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n amlinellu'r ethos ataliol, hirdymor y mae'n rhaid i holl gyrff cyhoeddus Cymru weithio tuag ato; a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n darparu'r peirianwaith cyfreithiol gweithredol, h.y. dyletswyddau asesu, atal a chefnogi ar awdurdodau lleol, ar gyfer darparu'r fframwaith a'r ethos hwnnw i'r cohort hwn o blant. Y drydedd Ddeddf hon, sy'n cael ei hystyried isod, sy'n dangos yn fwyaf clir beth mae anweledigrwydd plant carcharorion yn ei gostio iddyn nhw mewn gwirionedd yn ymarferol.

### 4.1 Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymwreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn cyfraith ddomestig. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i roi "sylw dyladwy" i'r Confensiwn wrth ymarfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, gan gynnwys datblygu deddfwriaeth a pholisi, ac mae'n nodi ei bod yn ofynnol cyhoeddi Cynllun Plant yn nodi sut mae'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni, gan gynnwys drwy asesiadau o'r effaith ar hawliau plant.[36]

Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yn Lloegr, lle nad oes dyletswydd statudol gyfatebol. Er bod y system cyfiawnder troseddol, llysoedd, dedfrydu, carchardai, prawf a phlismona, yn bwerau a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU a San Steffan, mae diogelu, gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg plant yng Nghymru yn gyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'n golygu nad bwlch polisi yn unig yw anweledigrwydd plant carcharorion yng Nghymru. Gellid dadlau ei fod yn fater o ddiffyg cydymffurfio dan gyfraith ddomestig ddatganoledig Cymru. Mae cysylltiad uniongyrchol â nifer o erthyglau CCUHP:

- **Erthygl 3 (Lles Pennaf y Plentyn):** rhaid i les pennaf y plentyn fod yn ystyriaeth flaenllaw ym mhob gweithred sy'n ymwneud ag ef. Mae dedfrydu prif roddwr gofal i garchar yn Lloegr, heb unrhyw asesiad ymlaen llaw o'r effaith ar hawliau plant, yn trin y plentyn sy'n byw yng Nghymru, fel sgil-gynnyrch damweiniol i'r ddedfryd, ac nid fel unigolyn annibynnol sydd â hawliau.

[35] PACT (2016), *Our Voice: a charter for children and young people who have experienced a parent or brother or sister being arrested, tried and imprisoned* https://www.prisonadvice.org.uk/advocacy/our-voice/; Pact (2018), *Hear Our Voice: recommendations for action to safeguard children affected by the arrest and imprisonment of family members*. https://www.prisonadvice.org.uk/media/hu5d1cu0/hov_report_2018.pdf

[36] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents/welsh; Cyfraith Cymru https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents/enacted/welsh; Llywodraeth Cymru, *Hawliau Plant yng Nghymru*. https://www.llyw.cymru/hawliau-plant-yng-nghymru

- **Erthygl 4 (Diogelu Hawliau):** rhaid i lywodraethau gymryd pob cam sydd ar gael er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu, eu diogelu a'u cyflawni, gan gynnwys drwy asesu deddfwriaeth ddomestig ac ymarfer yn erbyn safonau gofynnol y Confensiwn.[37] Diffyg mecanwaith yng Nghymru ac yn y DU i nodi plant carcharorion yw'r union fath o fwlch y mae ar yr erthygl hon angen i'r wladwriaeth ei gau.
- **Erthygl 9 (Gwahanu oddi wrth Rieni):** mae gan blant hawl i gadw perthnasoedd personol a chyswllt uniongyrchol â'r ddau riant yn rheolaidd. Mae'r pellter daearyddol sy'n cael ei greu drwy anfon mamau o Gymru i garchardai yn Lloegr yn gweithredu fel rhwystr ymarferol, wedi'i greu gan y wladwriaeth, sy'n atal yr hawl hon, ac mae'n cael ei deimlo fwyaf gan deuluoedd ar incwm isel na allant ysgwyddo'r gost na dygymod â'r amser teithio.
- **Erthygl 12 (Parch i Farn y Plentyn):** mae gan blant hawl i fynegi eu barn am faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Ar hyn o bryd nid oes mecanwaith ffurfiol i alluogi plentyn i fynegi sut y bydd carcharu rhiant yn effeithio ar ei sefydlogrwydd, ei ddiogelwch neu ei addysg cyn nac ar ôl rhoi dedfryd o garchar.
- **Erthygl 19 (Diogelu rhag Trais a Niwed):** rhaid i blant gael eu diogelu rhag niwed, esgeulustod a chamdriniaeth. Mae diffyg mecanweithiau nodi ac atgyfeirio awtomatig yn achosi risg o oedi cyn ymyrryd i sicrhau diogelwch mewn achosion lle bo plentyn yn cael ei adael mewn trefniant gofal ansefydlog neu anaddas.
- **Erthygl 20 (Plant sy'n cael eu Hamddifadu o Amgylchedd Teuluol):** mae gan blentyn sy'n cael ei amddifadu dros dro o'i amgylchedd teuluol hawl i amddiffyniad a chymorth arbennig gan y wladwriaeth. Heb system adnabod gyson, nid yw'r rhwymedigaeth hon yn cael ei sbarduno'n ddibynadwy.
- **Erthygl 27 (Safon Byw Ddigonol):** mae carcharu rhiant yn aml yn arwain at golli incwm yn sydyn, dyled ac ansicrwydd tai, gan danseilio'r hawl hon yn uniongyrchol, yn enwedig lle nad oes mecanwaith sefydlogi incwm neu gefnogi teulu awtomatig yn bodoli.
- **Erthygl 28 (Hawl i Addysg) ac Erthygl 29 (Nodau Addysg):** mae presenoldeb is, gwahardd ac ymddieithrio, sy'n anweledig yn aml i ysgolion nad ydynt yn ymwybodol o'r achos sylfaenol, yn tanseilio'r hawl ymarferol i addysg a'i phwrpas datblygiadol.
- **Erthygl 39 (Adfer ac Ailintegreiddio):** mae gan blant sy'n profi trawma hawl i gefnogaeth ar gyfer adferiad. Yn aml iawn mae plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn profi trawma cronnol heb lwybr strwythuredig, hirdymor at gymorth, yn enwedig lle nad ydynt wedi cael eu nodi gan wasanaethau statudol.
- **Erthygl 16 (Diogelu Preifatrwydd):** ni ddylai unrhyw blentyn brofi ymyriad mympwyol neu anghyfreithlon â'i breifatrwydd, ei deulu, ei gartref neu ei ohebiaeth.[38] Mae dwy ffordd o edrych ar yr hawl hon yn y cyd-destun hwn: mae'n rheswm dros gynllunio unrhyw system adnabod â system rhannu data gymesur, sy'n cael ei rheoli'n ofalus, ond nid yw'n rheswm dros osgoi nodi yn gyfan gwbl, gan mai'r ffordd orau o ddiogelu preifatrwydd yw drwy brotocolau clir, cyfreithlon yn hytrach na thrwy adael plant heb eu nodi a heb gefnogaeth yn ddiofyn.

O edrych ar y darpariaethau hyn gyda'i gilydd, maent yn dangos bod carcharu rhiant yn fater cyfiawnder troseddol, a hefyd yn fater hawliau plant trawsbynciol. Mae diffyg trefniadau nodi systematig, asesiad o'r effaith ar hawliau plant a chefnogaeth yn achosi risg strwythurol o dorri hawliau cronnus, heb fesurau lliniaru ar draws nifer o ddarpariaethau CCUHP, risg y mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol benodol i roi sylw dyladwy iddi dan Fesur 2011.

---

[37] Keen-Downs, A., Hutchinson, A., Beesley, L., Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*, Ebrill 2025. https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

[38] Keen-Downs, A., Hutchinson, A., Beesley, L., Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*, Ebrill 2025. https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

### 4.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, i weithio tuag at saith nod llesiant (yn cynnwys Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, a Chymru o gymunedau cydlynol) ac i gymhwyso pum ffordd o weithio statudol: meddwl yn yr hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio, a chyfranogiad.[39]

Mae tensiwn uniongyrchol rhwng anweledigrwydd presennol plant carcharorion a'r Ddeddf hon ar y ddau gyfrif:

- **Y nodau.** Mae plant carcharorion yn wynebu caledi ariannol dwys ac amharu ar eu haddysg sy'n dwysáu anfantais o'r naill genhedlaeth i'r llall, gan weithio yn erbyn y nod o Gymru sy'n fwy cyfartal. Mae carcharu rhiant yn Brofiad Niweidiol difrifol yn ystod Plentyndod, ac yn achosi problemau iechyd meddwl hirdymor y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus Cymru ddelio â nhw wedyn, gan weithio yn erbyn y nod o Gymru iachach. Mae alltudio prif roddwyr gofal i garchardai yn Lloegr yn torri strwythurau teuluol a chymunedol lleol, gan weithio yn erbyn y nod o Gymru o gymunedau cydlynol.
- **Y ffyrdd o weithio.** Os nad yw plant wedi cael eu nodi, ni all cyrff cyhoeddus yng Nghymru ymarfer y ddyletswydd atal. Yr unig beth y gallant ei wneud yw ymateb ar ôl i'r niwed ddigwydd. Os nad yw plant wedi cael eu nodi, ni allant ymarfer integreiddio neu gydweithio ar draws ysgolion, iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder, gan nad oes un corff unigol yn gwybod yn ddibynadwy pa blant sydd angen pa ymateb. Ac mae ymatebion seiliedig ar argyfwng i ddigartrefedd sydyn neu fethiant mewn gofal yn hollol wahanol i feddwl yn yr hirdymor.

Yn fyr: mae diffyg mecanwaith nodi statudol yn methu â helpu'r cohort hwn o blant, a hefyd yn tanseilio gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei dyletswyddau statudol ei hun dan Ddeddf 2015.

### 4.3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: y mecanwaith cyflawni coll

Os yw Mesur Hawliau 2011 yn amlinellu'r fframwaith hawliau a Deddf 2015 yn amlinellu'r ethos, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw'r ddeddfwriaeth a ddylai mewn gwirionedd gyflawni ar gyfer y cohort hwn o blant, ond nid yw'n gwneud hynny ar hyn o bryd, am y rheswm syml, yn aml iawn, nad yw byth yn cael ei sbarduno. Mae Deddf 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol gweithredol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan roi dyletswyddau yn uniongyrchol ar awdurdodau lleol, wedi'u hadeiladu o gwmpas pum egwyddor greiddiol: llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, cydgynhyrchu, a phartneriaeth ac integreiddio.[40] Mae nifer o'i darpariaethau yn uniongyrchol berthnasol i blant carcharorion.

- **Y ddyletswydd atal (Rhan 2).** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau ataliol â'r nod o leihau neu oedi anghenion gofal a chymorth, neu sicrhau nad ydynt yn dwysáu.[41] Mae plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar, yn ôl y dystiolaeth a amlinellwyd yn Adran 3, yn enghraifft glir ar gyfer ymyriad ataliol: mae'n bosibl rhagweld y

---

[39] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/welsh; Llywodraeth Cymru, *Gwybodaeth hanfodol*. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-gwybodaeth-hanfodol.pdf

[40] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh; Cyfraith Cymru https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh; Gofal Cymdeithasol Cymru, *Trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/deddf-sswb/trowsolwg

[41] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh; Cyfraith Cymru https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh; Gofal Cymdeithasol Cymru, *Trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/deddf-sswb/trowsolwg

niwed, mae'n gronnus, a gellir ei leihau drwy gymorth cynnar, lefel isel. Ond gan nad yw'r grŵp hwn yn cael ei nodi, nid yw'r ddyletswydd atal byth yn cael ei chyflawni'n weithredol iddyn nhw fel grŵp. Mae'n dibynnu ar atgyfeiriad ar hap yn hytrach na chymhwyso'n systematig.

- **Y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth (Adran 17).** Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth hygyrch yn ymwneud â'r system gofal a chymorth a sut i godi pryderon ynglŷn â llesiant unigolyn.[42] Mae hwn yn fachyn statudol parod ar gyfer y model "cerdyn galw" a chyfeirio rhieni a amlinellir yn Adran 7 o'r briff hwn: yn hytrach nag adeiladu llwybr gwybodaeth newydd o'r dechrau un, gallai Llywodraeth Cymru fynnu bod y ddyletswydd hon sy'n bodoli'n barod yn ymwneud yn benodol, ac yn cael ei chynnig yn rhagweithiol, i deuluoedd sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar.
- **Yr hawl i asesiad o anghenion gofalwr (Adran 21).** Lle bo'n ymddangos i awdurdod lleol y gallai fod ar ofalwr angen cymorth, rhaid i'r awdurdod asesu'r anghenion hynny; mae hyn yn berthnasol i unrhyw un sy'n darparu, neu'n bwriadu darparu, gofal i blentyn.[43] Pan fydd mam yn cael ei charcharu a thaid a nain, perthynas arall neu ffrind i'r teulu yn camu i mewn, fel sy'n digwydd i tua 95% o'r plant sy'n cael eu heffeithio (gweler Adran 3.4), mae gan y gofalwr newydd hwnnw eisoes hawl statudol i ofyn am asesiad o'i anghenion cefnogaeth ei hun. Yn ymarferol nid yw'r hawl hon byth bron yn cael ei hymarfer, gan nad yw unrhyw ran o'r system gyfiawnder yn dweud wrth y gofalwyr hyn ei bod yn bodoli, a chan nad yw'r plentyn maen nhw'n gofalu amdano nawr wedi cael ei nodi yn y lle cyntaf.
- **Y ddyletswydd i asesu a diogelu plant sydd mewn perygl (Adran 37 a darpariaethau cysylltiedig).** Unwaith y bydd awdurdod lleol yn ymwybodol y gallai fod ar blentyn angen gofal a chymorth, neu y gallai fod mewn perygl, rhaid iddo asesu anghenion y plentyn hwnnw, a lle bo angen, rhaid iddo lunio cynllun yn amlinellu canlyniadau, rolau a chyfrifoldebau sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a threfniadau adolygu.[44] Dyma'r union fecanwaith a ddylai ddod i rym ar gyfer plant carcharorion ar yr adeg y mae prif roddwr gofal yn cael ei garcharu. Nid yw'n dod i rym, oherwydd fel mae'r briff hwn wedi dadlau, nid oes mecanwaith nodi'n bodoli er mwyn gwneud yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'r plentyn yn y lle cyntaf.

Mae'r patrwm ar draws pob un o'r pedair darpariaeth yr un fath, a dyma ddadl ganolog y briff hwn: nid yr hawliau cyfreithiol y mae ar y cohort hwn o blant a'u gofalwyr eu hangen sydd ar goll yng Nghymru. Yr hyn nad oes ganddi yw'r un dull nodi systematig a fyddai'n achosi i'r hawliau hyn gael eu gweithredu. Ni fyddai dyletswydd statudol i nodi plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar (Argymhelliad 1) yn golygu bod angen ysgrifennu cyfraith gofal cymdeithasol newydd; byddai, i raddau helaeth, yn ysgogi dyletswyddau sy'n bodoli'n barod dan Ddeddf 2014. O ganlyniad, dylai unrhyw fodel cenedlaethol gael ei adeiladu i weithio drwy bensaernïaeth bresennol y Ddeddf, trefniadau diogelu a phartneriaeth rhanbarthol, y fframwaith canlyniadau cenedlaethol, a gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n bodoli'n barod, yn hytrach na chreu strwythurau cyfochrog.

Yn bwysig iawn, nid dim ond creu'r dyletswyddau hyn y mae Deddf 2014 yn ei wneud; mae hefyd yn dweud sut y dylid eu hymarfer mewn cysylltiad â phlant. Mae Adran 7(2) o'r Ddeddf yn nodi ei

---

[42] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 17 (gwybodaeth, cyngor a chymorth); Llywodraeth Cymru, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gwybodaeth hanfodol*. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-gwybodaeth-hanfodol.pdf

[43] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 21 (asesu anghenion gofalwyr am gymorth). https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/21/welsh

[44] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 37 a darpariaethau cysylltiedig (plant sy'n wynebu risg: dyletswydd i asesu a diogelu); Llywodraeth Cymru, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl*, Cyfrol I. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf.

bod yn ofynnol i unrhyw un sy'n ymarfer swyddogaethau dan y Ddeddf mewn cysylltiad â phlentyn roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gymhwyso'r un hawliau sylfaenol ag a nodir yn yr Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.[45] Mae Gweinidogion Cymru wedi'u heithrio o adran 7(2) dim ond oherwydd eu bod wedi'u rhwymo'n barod gan y ddyletswydd gyfatebol dan Fesur 2011. Effaith y ddwy ddarpariaeth o'u darllen gyda'i gilydd yw bod y ddyletswydd sylw dyladwy yn ymestyn yn ddi-dor o brosesau llunio polisïau Llywodraeth Cymru yr holl ffordd i asesiad gweithiwr cymdeithasol unigol o blentyn unigol.[46] Mae hyn yn uniongyrchol berthnasol i ddadl y briff hwn. Mae'n golygu pan fydd awdurdod lleol yn ymarfer swyddogaeth atal, gwybodaeth a chyngor, asesiad gofalwr neu blentyn mewn angen mewn cysylltiad â phlentyn sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar, nid yw'n ymarfer disgresiwn yn gyffredinol: mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi sylw dyladwy i hawliau'r plentyn hwnnw dan Erthyglau 3, 9, 12, 19, 20, 27, 28, 29 a 39 (a amlinellir yn Adran 4.1) wrth benderfynu sut y cyflawnir y swyddogaeth honno.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu nad yw'r achos seiliedig ar hawliau sy'n cael ei wneud yn Adran 4.1 wedi'i gyfyngu i Fesur 2011 ac i Weinidogion Cymru. Mae'n ymestyn i'r pwynt cyflawni gwasanaeth unigol dan Ddeddf 2014, a dylai gael ei adlewyrchu'n benodol mewn unrhyw ganllawiau statudol, cod ymarfer neu fodel ymarfer cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu dan Argymhelliad 8. Mae gan weithiwr cymdeithasol sy'n asesu anghenion gofalwr sy'n berthynas yn dilyn carcharu mam, er enghraifft, ddyletswydd yn barod i roi sylw dyladwy i hawl Erthygl 9 y plentyn hwnnw i gadw cysylltiad â hi, a hawl Erthygl 20 i amddiffyniad arbennig, ond rhaid i'r plentyn fod wedi'i nodi yn gyntaf er mwyn i'r gweithiwr cymdeithasol allu cyflawni'r ddyletswydd honno.

Mae pensaernïaeth ymarfer y Ddeddf hefyd yn datgelu bwlch penodol y gellir ei gau. Dan Ran 7 o Ddeddf 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu*, sy'n eistedd ochr yn ochr â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ac sydd gyda'i gilydd yn nodi sut y cymhwysir dyletswyddau diogelu dan y Ddeddf yn ymarferol, â chefnogaeth set o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan sy'n ymwneud â grwpiau penodol o blant.[47] Mae'r canllawiau hyn eisoes yn rhoi canllawiau ymarferol, penodedig i ymarferwyr ar gategorïau, gan gynnwys plant sy'n mynd ar goll, plant sy'n dioddef camfanteisio rhywiol, a phlant sy'n cael eu hesgeuluso. Fel y mae pethau, fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys canllaw penodedig ar gyfer plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar, er gwaethaf maint a difrifoldeb y dystiolaeth a roddwyd yn y briff hwn.[48] Nid bwlch deddfwriaethol yw hwn (mae'r Ddeddf a'i Chod eisoes yn gymwys i bob plentyn, gan gynnwys y cohort hwn) ond bwlch canllawiau ymarfer, ac un o'r atebion symlaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru: byddai comisiynu Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan i blant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn ymwreiddio nodi ac ymateb yn uniongyrchol yn y mesurau diogelu y mae ymarferwyr pensaernïaeth yn eu defnyddio'n ddyddiol yn barod. Ar wahân, mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), sy'n bodoli'n barod, eisoes yn darparu fframwaith parod cyfreithlon ar gyfer yr union fath o rannu data amlasiantaethol, cymesur y mae'r briff hwn yn ei argymell rhwng asiantaethau cyfiawnder,

---

[45] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 7(2) (sylw dyladwy i Ran 1 o CCUHP, fel y nodir yn yr Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011; nid yw'r ddyletswydd yn gymwys i Weinidogion Cymru, sy'n ddarostyngedig yn hytrach i Fesur 2011 yn uniongyrchol). https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/7/welsh

[46] Ibid.

[47] Llywodraeth Cymru (2022), *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu*, a gyhoeddwyd dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu_0.pdf; Gofal Cymdeithasol Cymru, arweiniad statudol dan y Ddeddf. https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/deddf-sswb/arweiniad-statudol; Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan. https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/

[48] NICCO (2025), *Improving wellbeing and educational outcomes for children in Wales affected by parental imprisonment: literature, policy and practice reviews*, para. 3.4, sy'n nodi bod Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn "tynnu sylw at wahanol gategorïau o blant, ond hyd yn hyn nid ydynt yn cynnwys plant sydd â rhiant yn y carchar." https://www.nicco.org.uk/userfiles/downloads/6808de48336b4-improving-wellbeing-and-educational-outcomes-for-children-in-wales-affected-by-parental-imprisonment-literature-policy-and-practice-reviews.pdf

ysgolion, iechyd a gofal cymdeithasol, a dylid ei ddefnyddio fel y sail ar gyfer unrhyw brotocol rhannu gwybodaeth newydd yn hytrach na threfniant arbennig yn cael ei ddylunio o'r newydd.[49]

### 4.4 Cyfraith addysg a chanllawiau: mannau cyswllt presennol, ddim yn sbardun eto

Mae cyfraith addysg a chanllawiau statudol eisoes yn cynnig nifer o adegau pan ellid nodi plentyn sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar, er nad oes yr un ohonynt yn gweithredu fel sbardun ar hyn o bryd ar yr adeg y mae rhiant yn cael ei ddedfrydu. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar godau presenoldeb mewn ysgol eisoes yn rhestru "ymweliadau â charchar" fel enghraifft o amgylchiadau pan all ysgol awdurdodi absenoldeb, ynghyd â phrofedigaeth a bod yn ofalwr ifanc, cydnabyddiaeth ymhlyg o'r cohort hwn, ond nid categori safonedig wedi'i gofnodi.[50] Mae'r canllawiau hyn yn destun adolygiad byw ar hyn o bryd yn dilyn ymgynghoriad ym mis Chwefror 2026. Maent yn rhoi cyfle gwirioneddol a chost isel i Lywodraeth Cymru gyflwyno cod presenoldeb enwebedig, penodol ar gyfer plant y mae eu rhiant neu ofalwr yn mynd i'r carchar, heb ddeddfwriaeth newydd, ac i gynhyrchu data cenedlaethol drwy'r cyfrifiad ysgol presennol am y tro cyntaf.[51]

Mae dyletswyddau eraill yn cadarnhau'r cyfle hwn heb gymryd ei le. Rhaid i awdurdodau lleol olrhain plant sy'n mynd ar goll o addysg yn barod, trefniant a all ddod ag amgylchiadau teulu i'r wyneb ar ôl symud tŷ yn sydyn, neu dynnu plentyn o'r ysgol, ond dim ond ar ôl y digwyddiad.[52] Lle bo anawsterau plentyn yn bodloni'r trothwy, mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 eisoes yn darparu llwybr statudol i Gynllun Datblygu Unigol, er bod hyn yn dibynnu ar ysgol yn sylwi yn gyntaf ar anghenion y plentyn, ac yn eu priodoli'n gywir.[53] Yn fwyaf arbennig, mae fframwaith 2021 Llywodraeth Cymru sy'n ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol, a gyhoeddwyd fel canllawiau statudol i gyrff llywodraethu, eisoes yn enwi "cefnogi plant rhieni/gofalwyr sydd yn y carchar" fel pwnc ar gyfer hyfforddiant staff, y gydnabyddiaeth gliriaf sy'n bodoli'n barod o'r cohort hwn yn unman mewn polisi addysg yng Nghymru, ond un sy'n gweithredu ar lefel ymwybyddiaeth staff yn hytrach na nodi.[54]

O edrych arnynt gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn cadarnhau'r patrwm a nodwyd yn Adran 4.3: Mae gan Gymru eisoes bensaernïaeth ddeddfwriaethol a pholisi sy'n gallu cefnogi'r cohort hwn unwaith y bydd ysgolion yn gwybod pwy ydyn nhw. Yr hyn sydd ar goll, unwaith eto, yw'r sbardun. Byddai diwygio'r cod presenoldeb byw i ychwanegu cod penodol ar gyfer carcharu rhiant, a diweddaru Cadw Dysgwyr yn Ddiogel i enwi dedfrydu rhiant fel digwyddiad hysbysadwy ar gyfer yr Arweinydd Diogelu Dynodedig, yn ddau o'r llwybrau mwyaf uniongyrchol

---

[49] Llywodraeth Cymru, *Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)*. https://www.waspi.llyw.cymru/; https://www.llyw.cymru/cytundeb-rhannu-gwybodaeth-bersonol-cymru-waspi

[50] Deddf Addysg 1996, adran 434; Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010; Llywodraeth Cymru, Canllawiau drafft ar godau presenoldeb ysgolion (Ymgynghoriad Chwefror 2026), yn rhestru "ymweld â rhywun yn y carchar" fel enghraifft o amgylchiadau absenoldeb. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2026-02/canllawiau-ar-godau-presenoldeb-ysgolion-canllawiau.pdf

[51] Llywodraeth Cymru, *Adolygiad o'r Codau Presenoldeb yn yr Ysgol*. https://www.llyw.cymru/adolygiad-or-codau-presenoldeb-yn-yr-ysgol-html; *Codau presenoldeb ysgol: canllawiau*. https://www.llyw.cymru/codau-presenoldeb-ysgol-canllawiau

[52] Llywodraeth Cymru, *Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg* (2020). https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/canllawiau-statudol-helpu-atal-plant-phobl-ifanc-rhag-colli-addysg.pdf

[53] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/welsh; Cyfraith Cymru. https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/welsh

[54] NICCO (2025), *Improving wellbeing and educational outcomes for children in Wales affected by parental imprisonment: literature, policy and practice reviews*, para. 3.11, yn dyfynnu cyfeiriad fframwaith ysgol gyfan 2021 Llywodraeth Cymru at hyfforddiant ar "anhwylder ymlyniad, hyfforddiant emosiynau, dulliau adferol, a chynorthwyo plant rhieni/gofalwyr sydd yn y carchar a'r rheiny sy'n cael eu hamlygu i gamdriniaeth ddomestig". https://www.nicco.org.uk/userfiles/downloads/6808de48336b4-improving-wellbeing-and-educational-outcomes-for-children-in-wales-affected-by-parental-imprisonment-literature-policy-and-practice-reviews.pdf

i gau'r bwlch o'r ochr addysg.[55]

## 5. Y Bwlch Llywodraethiant: Datganoli, Comisiwn Thomas a *Jagged Justice*

Mae dealltwriaeth dda o'r achos strwythurol sydd wrth wraidd llawer o hyn ac mae wedi cael ei archwilio o safbwynt Cymru a'r DU erbyn hyn.

Daeth Comisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) i'r casgliad bod y setliad datganoli presennol, lle mae cyfiawnder a phlismona yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl i San Steffan o hyd, tra bo iechyd, addysg a gofal cymdeithasol wedi'u datganoli i Gymru, yn ddryslyd o safbwynt strwythurol. Canfu anwadalwch rhwng gwasanaethau datganoledig a swyddogaethau cyfiawnder a gadwyd yn ôl, ddiffyg cysondeb rhwng arferion dedfrydu'r DU a pholisi llesiant Cymru, a llai o allu i gyflawni modelau cyfiawnder integredig, ataliol. Roedd y Comisiwn yn argymell y dylid datganoli cyfiawnder a phlismona yn llawn i Gymru, ac y dylid cyflwyno mesurau mwy uniongyrchol, yn cynnwys un system ar gyfer cyfiawnder plant a theuluoedd a rhwydwaith o ganolfannau menywod fel dewis arall yn lle'r ddalfa.[56]

Yn fwy diweddar, roedd adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig a gyhoeddwyd yn 2026, *Jagged Justice: Prisons, Probation and Rehabilitation in Wales*, yn archwilio'r un diffygion o San Steffan, a daeth i gasgliad hynod o debyg, gan ddisgrifio'r rhaniad cyfrifoldeb fel "ymyl arw" h.y. cyfiawnder troseddol wedi'i gadw'n ôl i Lywodraeth y DU, tra bo'r gwasanaethau sy'n hanfodol ar gyfer ailsefydlu effeithiol a sefydlogrwydd teuluol (iechyd, tai, addysg) wedi'u datganoli i Gymru.[57] Mae'r ffaith fod dau ymholiad annibynnol, gan lywodraethau gwahanol, a phum mlynedd ar wahân, wedi nodi'r un diffyg strwythurol yn arwyddocaol ynddo'i hun. Mae'n amlwg yn cyflwyno diagnosis cyffredin, ar draws sefydliadau o fethiant llywodraethol â chanlyniadau uniongyrchol i blant.

Yr effaith ymarferol i blant carcharorion yw tagfa lywodraethol: mae Llywodraeth y DU yn rheoli penderfyniadau sy'n ymwneud â dedfrydu a charchardai, ac yn pennu a fydd plentyn yn cael ei wahanu oddi wrth riant, pa mor bell, ac am faint o amser, tra bo Llywodraeth Cymru yn gorfod rheoli'r canlyniadau yn nes ymlaen ar gyfer addysg, iechyd a diogelu'r plentyn hwnnw, heb oruchwyliaeth, na dylanwad dros y penderfyniad a greodd yr angen. Mae'r anghydbwysedd strwythurol hwn yn arwain at atebolrwydd tameidiog, oedi cyn ymyrryd, dyblygu costau, a niwed y gellid ei osgoi i blant, niwed y gellid, mewn egwyddor, ei atal yn y ffynhonnell.

---

[55] Llywodraeth Cymru, *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* (2022). https://www.llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

[56] Comisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019), *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf

[57] Pwyllgor Materion Cymreig (2026), *Jagged Justice: Prisons, Probation and Rehabilitation in Wales* Senedd y DU. https://committees.parliament.uk/publications/53467/documents/298896/default/ (gweler hefyd grynodeb y pwyllgor: https://committees.parliament.uk/committee/162/welsh-affairs-committee/news/214164/prisons-probation-and-rehabilitation-in-wales-overcrowded-prisons-and-workforce-pressures-undermining-safety-and-rehabilitation-mps-warn/)

## 6. Momentwm Gwleidyddol dros Ddiwygio

Oherwydd yr ymrwymiad gwleidyddol o wahanol gyfeiriadau mae hwn yn amser addas iawn i weithredu.

Mae **maniffesto Senedd 2026 Plaid Cymru** yn ymrwymo i Ddeddf Hawliau Dynol i Gymru, gan ymgorffori cytuniadau rhyngwladol yn llawn yng nghyfraith Cymru, gan gynnwys CCUHP, ymrwymiad a fyddai'n gosod y dadansoddiad seiliedig ar hawliau yn Adran 4 uchod ar sylfaen statudol hyd yn oed yn fwy cadarn.[58] Mae pum prif flaenoriaeth y maniffesto yn cynnwys tlodi plant, ynghyd ag ymrwymiad penodol (Cynnal) i dreialu tâl plant wythnosol ar gyfer plant mewn aelwydydd incwm isel, cydnabyddiaeth bod mesurau ataliol, strwythurol ar gyfer plant sydd dan anfantais yn flaenoriaeth o safbwynt llywodraethu yn hytrach na phryder ymylol.[59] Mae llwyfan polisi hirsefydlog Plaid Cymru hefyd yn cynnwys datganoli cyfiawnder a phlismona i Gymru a dewisiadau eraill cymunedol yn lle dedfrydu i garchar, y naill a'r llall yn uniongyrchol gysylltiedig â chanfyddiadau Comisiwn Thomas.[60]

**Roedd maniffesto Llywodraeth y DU (Llafur)** yn cynnwys ymrwymiad i wella nodi a chefnogi plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar, gan eu cydnabod fel poblogaeth gudd sydd angen ymyriad cynharach ac ymatebion diogelu mwy cyson.[61] Mae cynnydd yn erbyn yr ymrwymiad hwn hyd yn hyn wedi bod yn gyfyngedig i waith archwiliol a'r cyhoeddiad yn ddiweddar ynglŷn â dau beilot lleol yn Lloegr,[62] heb amserlen wedi'i chadarnhau ar gyfer gweithredu statudol llawn, gan greu bwlch rhwng bwriad polisi datganedig y DU a chyflawni nad oes angen i Gymru aros amdano.

**Mae cynsail yn bodoli'n barod ar gyfer y math hwn o ddiwygio.** Dechreuodd Ymgyrch Encompass, y cynllun a ddefnyddir gan yr heddlu er mwyn hysbysu ysgol plentyn cyn y diwrnod ysgol nesaf pan fydd swyddogion wedi mynd allan i ddigwyddiad cam-drin domestig yn ymwneud â'r plentyn hwnnw, fel cynllun gwirfoddol, yn cael ei arwain yn lleol. Ers hynny mae wedi'i osod ar sail statudol ledled Cymru a Lloegr drwy Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, sy'n gosod dyletswydd statudol ar bob heddlu tiriogaethol i weithredu'r cynllun.[63] Mae hyn yn dangos bod modd cyflawni modelau hysbysu traws-asiantaeth fel hyn ar raddfa genedlaethol, a bod y llywodraeth yn barod i symud cynlluniau o'r fath o ymarfer da i ddyletswydd statudol unwaith y bydd y dystiolaeth a'r ewyllys gwleidyddol yn bodoli. Mae plant carcharorion yn haeddu'r un driniaeth.

O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r sail dystiolaeth a adeiladwyd drwy ASPIRE, a Pact y fframwaith hawliau a grëwyd gan Fesur 2011, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y diagnosis cyfansoddiadol a rennir gan Gomisiwn Thomas a'r Pwyllgor Materion Cymreig, a'r ymrwymiadau gwleidyddol sydd wedi'u gwneud yn barod gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn gwneud yr achos dros ddiwygio yn anarferol o gyson. Nid tystiolaeth, dadansoddiad neu awydd gwleidyddol mewn egwyddor sydd ar goll, ond

---

58 Plaid Cymru, *Dros Gymru — Maniffesto 2026*. https://assets.nationbuilder.com/plaid2016/pages/41843/attachments/original/1775140240/For_Wales_-_2026_Manifesto.pdf

59 Plaid Cymru, *Manifesto 2026 Hawdd ei Ddeall* https://assets.nationbuilder.com/plaid2016/pages/41843/attachments/original/1775552685/Easy_Read_Plaid_Cymru_Manifesto_2026.pdf; ymdriniaeth ag ymrwymiad tâl plant Cynnal, nation.cymru. https://nation.cymru/feature/plaid-cymru-2026-senedd-election-manifesto-what-does-it-say-what-does-it-mean-and-how-will-it-affect-you/

60 Comisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019), *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf

61 Y Blaid Lafur, *Change: Labour Party Manifesto 2024* (2024), ymrwymiadau ar blant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar. https://labour.org.uk/wp-content/uploads/2024/06/Labour-Party-manifesto-2024.pdf

62 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Press Release: Government action so children do not pay for a parent's crime. https://www.gov.uk/government/news/government-action-so-children-do-not-pay-for-a-parents-crime

63 Ymgyrch Encompass. https://www.operationencompass.org/; Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, Adran 20. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2024/21/section/20

penderfyniad i weithredu.

## 7. Modelau Ymarfer Datblygol

Mae ymchwil ASPIRE Llywodraeth Cymru, a thystiolaeth y gellir ei chymharu yn y DU, yn cyfeirio tuag at fodel y gellir ei gyflawni sydd wedi'i adeiladu ar bum elfen.

1. **Nodi a chefnogi yn seiliedig ar ysgolion.** Mae gan ysgolion eisoes y berthynas, y cyswllt dyddiol, a'r gallu i sylwi ar newid. Mae adolygiad ymchwil ASPIRE o'r model "Parth Ysgolion" sy'n gweithredu yng Ngharchar y Parc a Charchar Caerdydd yn dangos dichonoldeb cydweithio strwythuredig rhwng carchardai ac ysgolion mewn cyd-destun Cymreig.[64]

2. **Mecanwaith technegol ar gyfer nodi.** Mae dadansoddiad Pact yn nodi dau fodel rhannu data hyfyw. Y model cyntaf yw Ymgyrch Paramount Heddlu Dyffryn Tafwys, sydd wedi dangos llwyddiant wrth ddefnyddio data'r heddlu a data cymunedol i nodi plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar. Er hyn, credwn fod y llwybr atgyfeirio yn y model hwn yn llai effeithiol, gan ei fod yn dibynnu ar swyddogion yr heddlu'n arwain wrth gynnig cefnogaeth.

Yr ail fodel yw Ymgyrch Encompass, model sefydledig lle mae ysgolion yn cael eu hysbysu pan fydd yr heddlu'n mynd i ddigwyddiad cam-drin domestig yn ymwneud â chartref plentyn. Mae'r dull hwn o nodi a rhannu gwybodaeth eisoes yn gyfarwydd i ysgolion ac yn galluogi arweinwyr diogelu dynodedig i gynnig cymorth deallus, sy'n seiliedig ar ffeithiau. O ganlyniad, mae'n darparu fframwaith mwy priodol i gefnogi plant sydd â rhiant yn y carchar.

3. **Llwybr atgyfeirio sy'n fwriadol yn cadw'r system gyfiawnder hyd braich oddi wrth y plentyn.** Argymhelliad clir Pact, sy'n seiliedig ar brofiadau'r teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi, yw na ddylai model cenedlaethol gael ei arwain gan gysylltiadau'r heddlu, ac na ddylai olygu bod y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud ar unwaith â theuluoedd, o ystyried yr ofn, y cywilydd a'r stigma y gall hyn ei achosi, yn enwedig i deuluoedd sydd eisoes wedi profi chwilio cartref neu arestio o flaen eu plant.[65] Yn hytrach, dylai atgyfeiriadau fynd at weithwyr proffesiynol y tu allan i'r system gyfiawnder: yr Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer plant oed ysgol, ac Ymwelwyr Iechyd ar gyfer plant dan bump, gan uwchgyfeirio i sylw'r heddlu neu ofal cymdeithasol plant dim ond lle bo amgylchiadau plentyn yn bodloni trothwy diogelu sy'n bodoli'n barod.[66] Mae model "cerdyn galw" Pact, a ddatblygwyd gyda Heddlu Avon a Gwlad yr Haf i'w ddefnyddio wrth weithredu gwarant yng nghartrefi teuluoedd, yn cynnig ffordd gymesur o gyfeirio rhieni a gofalwyr at gefnogaeth yn y pwynt arestio heb fod angen proses atgyfeirio fwy llawdrwm.[67]

4. **Cynnig datblygu gweithlu cenedlaethol.** Mae ASPIRE a Pact ill dau'n nodi hyder y gweithlu fel rhwystr hollbwysig: yn aml iawn nid oes gan weithwyr proffesiynol ddealltwriaeth o'r broses cyfiawnder troseddol a'i heffaith ar blant, ac mae rhai ysgolion yn dal i wadu ei bod yn effeithio o gwbl ar blant.[68] Mae Pecyn Cymorth Ysgolion digidol Pact eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn mwy na 350 o ysgolion a 45 o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, ac mae Pact wedi darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb, gan gynnwys ymweliadau â charchardai, i 360 o athrawon ac

---

64 Llywodraeth Cymru, ASPIRE (Rhoi Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol i Ysgolion a Charchardai ar Waith) (2025) https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html; CASCADE Wales, *Y Rhaglen ASPIRE*. https://cascadewales.org/cy/research/aspire-cy/

65 Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*, adrannau 'To whom should referrals be made?' a 'How should referrals be handled?'. https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

66 Ibid.

67 Ibid.

68 Llywodraeth Cymru, ASPIRE (Rhoi Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol i Ysgolion a Charchardai ar Waith) (2025) https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html; CASCADE Wales, *Rhaglen ASPIRE*. https://cascadewales.org/cy/research/aspire-cy/

ymarferwyr o 267 o ysgolion. Mae tystiolaeth yn dangos bod modd cyflawni cynnig hyfforddiant cenedlaethol o'r math hwn a'i fod yn cael derbyniad da unwaith y bydd ysgolion yn ymgysylltu ag ef. Dywedodd 97% o'r athrawon eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n well i gefnogi plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn dilyn yr hyfforddiant.[69]

5. **Llywodraethu data cymesur, sy'n parchu hawliau.** Roedd plant a phobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy drwy ymchwil Llywodraeth Cymru a gwaith siarter Pact yn glir na ddylai nodi achosi stigma neu drin unigolyn fel "troseddwr y dyfodol"; rhaid i unrhyw fodel fod yn gyfrinachol, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar y plentyn, â phrotocolau rhannu data yn gyson â gofynion CCUHP.[70] [71]

Mae dulliau gweithredu megis Ymgyrch Encompass yn dangos dichonoldeb gwaith nodi sensitif, wedi'i dargedu ar lefel dechnegol, tra bo tystiolaeth Pact yn tanlinellu pwysigrwydd osgoi atgyfeiriad sy'n cael ei arwain gan yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol lle bynnag y bo modd mewn unrhyw gyflwyniad cenedlaethol, o ystyried y risg o ddwysáu stigma.[72] [73]

## 8. Argymhellion

Mae'r briff hwn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

1. **Sicrhau bod dyletswydd statudol i nodi plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar yn cael ei chyflwyno ar frys** a'i rhoi i gyrff cyfiawnder a chyrff cyhoeddus perthnasol sy'n gweithredu mewn cysylltiad â Chymru. Dylai'r ddyletswydd fod wedi'i modelu ar y sail statudol a roddir yn awr i Ymgyrch Encompass dan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, ac yn cael ei gweithredu ar y cyd â Llywodraeth y DU gan fod cyfiawnder yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl ar hyn o bryd.

2. **Datblygu model cenedlaethol o nodi a chefnogi yn seiliedig ar ysgolion**, sy'n adeiladu'n uniongyrchol ar ymchwil ASPIRE a llwyddiant parhaus hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer ymarferwyr ysgolion ar fater plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar, i'w gyflwyno'n raddol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

3. **Cyflwyno llwybr hysbysu ffurfiol** o lysoedd, carchardai a gwasanaethau prawf i ysgol plentyn (drwy'r Arweinydd Diogelu Dynodedig) ac, ar gyfer plant cyn-ysgol, i ymwelwyr iechyd, yn seiliedig ar fodel Ymgyrch Encompass, wedi'i gyfeirio'n fwriadol oddi wrth gysylltiad yn cael ei arwain gan yr heddlu â theuluoedd, yn unol â thystiolaeth uniongyrchol Pact ar risgiau stigma a'r ofn y gall hyn ei achosi.[74]

4. **Mabwysiadu cynllun "cerdyn galw"**, wedi'i fodelu ar bartneriaeth Pact â Heddlu Avon a Gwlad yr Haf, er mwyn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael eu cyfeirio at gymorth a

---

[69] Pact, *Schools' Toolkit*, yn cael ei ddyfynnu yn Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*. https://www.prisonadvice.org.uk/schools-toolkit; https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

[70] Llywodraeth Cymru, ASPIRE (Rhoi Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol i Ysgolion a Charchardai ar Waith) (2025) https://www.llyw.cymru/gwella-canlyniadau-llesiant-ac-addysgol-i-blant-yng-nghymru-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-html;

[71] Pact (2016), *Our Voice: a charter for children and young people who have experienced a parent or brother or sister being arrested, tried and imprisoned* https://www.prisonadvice.org.uk/advocacy/our-voice/; Pact (2018), *Hear Our Voice: recommendations for action to safeguard children affected by the arrest and imprisonment of family members*. https://www.prisonadvice.org.uk/media/hu5d1cu0/hov_report_2018.pdf

[72] Partneriaeth Atal Trais Dyffryn Tafwys, *Operation Paramount*. https://www.tvvpp.co.uk/project/paramount/

[73] Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*, adrannau 'To whom should referrals be made?' a 'How should referrals be handled?'. https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

[74] Ibid.

chyngor ar yr adeg y mae aelod o'r teulu'n cael ei arestio neu ei garcharu.[75]

5. **Cyhoeddi canllawiau cyfathrebu cyhoeddus** ar gyfer y llywodraeth, cyrff statudol a phartneriaid cyflawni er mwyn sicrhau nad yw'r agenda hon byth yn cael ei fframio o gwmpas "troseddu o'r naill genhedlaeth i'r llall" neu blant fel "troseddwyr y dyfodol", yn unol â thystiolaeth uniongyrchol y plant a'r bobl ifanc eu hunain.[76] [77]
6. **Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant** gan edrych ar yr arferion dedfrydu presennol, y ddalfa a gwahanu teuluoedd, a sut maen nhw'n effeithio ar blant yng Nghymru, er mwyn helpu i gyflawni CCUHP, yn unol â'r ymrwymiadau dan ddyletswydd sylw dyladwy Llywodraeth Cymru ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.
7. **Cyhoeddi canllawiau statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn cadarnhau bod plant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar, a'r aelodau o'r teulu sy'n ymgymryd â'u gofal, yn dod o fewn cwmpas dyletswydd atal y Ddeddf, dyletswydd gwybodaeth, cyngor a chymorth Adran 17, a'r hawl Adran 21 i asesiad o anghenion gofalwr, gan sicrhau bod nodi yn ysgogi hawliau sy'n bodoli'n barod mewn cyfraith, ac nad oes angen creu rhai newydd.[78] [79] [80]

8. **Datblygu Canllaw Ymarfer dynodedig ar gyfer Cymru Gyfan ar blant sy'n dioddef gan fod rhiant yn y carchar**, wedi'i gyhoeddi dan Weithdrefnau Diogelu Cymru a'r Cod Ymarfer Diogelu wedi'i wneud dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel bod y cohort hwn yn eistedd ochr yn ochr â chategorïau cydnabyddedig eraill o blant agored i niwed mewn canllawiau ymarfer diogelu sy'n bodoli'n barod, yn hytrach na pharhau'n absennol ohonynt.[81] [82]

9. **Cyflwyno cod presenoldeb mewn ysgol ar wahân ar gyfer plant y mae eu rhiant neu ofalwr yn mynd i'r carchar**, gan ddefnyddio adolygiad byw 2026 o godau presenoldeb mewn ysgolion Llywodraeth Cymru yn lle'r enghraifft anffurfiol bresennol o "ymweliadau â charchar", â chategori safonedig, wedi'i gofnodi, yn cynhyrchu data cenedlaethol ar y cohort hwn drwy'r cyfrifiad ysgol presennol am y tro cyntaf a heb fod angen deddfwriaeth

---

75 Ibid.

76 Ibid.

77 Pact (2016), *Our Voice: a charter for children and young people who have experienced a parent or brother or sister being arrested, tried and imprisoned* https://www.prisonadvice.org.uk/advocacy/our-voice/; Pact (2018), *Hear Our Voice: recommendations for action to safeguard children affected by the arrest and imprisonment of family members*. https://www.prisonadvice.org.uk/media/hu5d1cu0/hov_report_2018.pdf

78 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh; Cyfraith Cymru https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/2/contents/welsh; Gofal Cymdeithasol Cymru, *Trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/deddf-sswb/trowsolwg

79 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 17 (gwybodaeth, cyngor a chymorth); Llywodraeth Cymru, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) *2014: Gwybodaeth hanfodol*. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-gwybodaeth-hanfodol.pdf

80 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 21 (asesu anghenion gofalwyr am gymorth). https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/21/welsh

81 Llywodraeth Cymru (2022), *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu*, a gyhoeddwyd dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu_0.pdf; Gofal Cymdeithasol Cymru, arweiniad statudol dan y Ddeddf. https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/deddf-sswb/arweiniad-statudol; Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan. https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/

82 NICCO (2025), *Improving wellbeing and educational outcomes for children in Wales affected by parental imprisonment: literature, policy and practice reviews*, para. 3.4, yn nodi bod Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan yn "nodi gwahanol gategorïau o blant, ond hyd yn hyn, nid yw'n cynnwys plant sydd â rhiant yn y carchar." https://www.nicco.org.uk/userfiles/downloads/6808de48336b4-improving-wellbeing-and-educational-outcomes-for-children-in-wales-affected-by-parental-imprisonment-literature-policy-and-practice-reviews.pdf

newydd.[83] [84]

10. **Pwyso ar Lywodraeth y DU a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gadarnhau, heb oedi ymhellach, y gweithredir y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn Abertawe**, yn unol ag argymhelliad Comisiwn Thomas a chanfyddiadau Pwyllgor Materion Cymreig 2026, er mwyn lleihau achosion o wahanu mamau oddi wrth eu plant drwy eu hanfon dros y ffin.

11. **Datblygu cynnig hyfforddiant cenedlaethol** ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysg, iechyd a gofal cymdeithasol ar effaith carcharu rhiant ac ymatebion priodol sy'n ystyriol o drawma, ac yn gydnaws â Fframwaith Cenedlaethol Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, gan adeiladu ar ac addasu adnoddau trydydd sector sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys Pecyn Cymorth Ysgolion Pact, sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn dros 350 o ysgolion a 45 o awdurdodau lleol, yn hytrach nag adeiladu darpariaeth o'r dechrau un.[85]

12. **Sefydlu protocolau rhannu data cymesur, sy'n gydnaws â CCUHP** er mwyn rheoli nodi ac atgyfeirio. Dylai'r protocolau fod wedi'u datblygu gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad personol, er mwyn sicrhau bod nodi yn cefnogi yn hytrach na stigmateiddio, a dylent fod wedi'u hadeiladu ar fframwaith presennol Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn hytrach na threfniant pwrpasol, newydd.[86]

13. **Sefydlu grŵp trosolwg a chyflawni trawslywodraethol**, yn rhychwantu cyfiawnder, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn cau'r bwlch llywodraethu a nodwyd gan Gomisiwn Thomas a'r Pwyllgor Materion Cymreig a thracio cyflawniad yn erbyn yr argymhellion hyn.

14. **Parhau i gasglu tystiolaeth ar yr effaith ar blant carcharorion** pe bai argymhellion datganoli Comisiwn Thomas yn cael eu gweithredu.

## Casgliad

Mae plant carcharorion yng Nghymru, yn ôl tystiolaeth Llywodraeth Cymru a dau ddegawd o ymarfer rheng flaen gan Pact, yn boblogaeth gudd sy'n profi niwed mesuradwy i'w lles, addysg a chyfleoedd mewn bywyd; niwed y gellir ei ragweld, ac i raddau helaeth, ei atal.

Mae Cymru wedi dewis, drwy Fesur Hawliau 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bod yn genedl sy'n rhoi hawliau plant, atal niwed yn yr hirdymor a fframwaith statudol o ofal a chymorth wrth graidd polisi cyhoeddus. Nid yw'r ymrwymiad yn cael ei gyflawni eto ar gyfer y cohort hwn o blant, nid oherwydd nad yw'r gyfraith yn darparu ar eu cyfer, ond oherwydd nad yw'r mecanwaith sydd ei angen i'w ysgogi, sef nodi systematig, yn bodoli. Mae'r dystiolaeth yn bodoli. Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn galw am weithredu yn barod. Mae'r ymrwymiadau gwleidyddol ar y bwrdd yn barod, o addewidion maniffesto Plaid Cymru i fwriad datganedig Llywodraeth y DU. Ac fel mae gwaith Pact gyda

[83] Deddf Addysg 1996, adran 434; Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010; Llywodraeth Cymru, canllawiau drafft ar godau presenoldeb ysgolion (Ymgynghoriad Chwefror 2026), sy'n rhestru "ymweliadau â rhywun yn y carchar" fel enghraifft o amgylchiadau absenoldeb. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2026-02/canllawiau-ar-godau-presenoldeb-ysgolion-canllawiau.pdf

[84] Llywodraeth Cymru, *Adolygiad o'r Codau Presenoldeb yn yr Ysgol*. https://www.llyw.cymru/adolygiad-or-codau-presenoldeb-yn-yr-ysgol-html; *Codau presenoldeb ysgolion: canllawiau*. https://www.llyw.cymru/codau-presenoldeb-ysgol-canllawiau

[85] Pact, *Schools' Toolkit*, yn cael ei ddyfynnu yn Pact (2025), *Identifying children affected by parental imprisonment: recommendations from Pact*. https://www.prisonadvice.org.uk/schools-toolkit; https://www.prisonadvice.org.uk/media/dqvjudev/identifying-children-affected-by-parental-imprisonment.pdf

[86] Llywodraeth Cymru, *Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)*. https://www.waspi.llyw.cymru; https://www.llyw.cymru/cytundeb-rhannu-gwybodaeth-bersonol-cymru-waspi

phlant a phobl ifanc yn nodi'n glir, rhaid adeiladu'r model ar gyfer diwygio o amgylch yr hyn y mae'r cohort hwn wedi gofyn amdano yn gyson ac yn glir: cael eu gweld a'u cefnogi, heb gael eu labelu neu eu barnu. Yr hyn sydd ei angen nawr yw penderfyniad i gau'r bwlch rhwng uchelgeisiau seiliedig ar hawliau Cymru a'r realiti a wynebir gan filoedd o blant sy'n parhau, ar hyn o bryd, yn anweledig i bob pwrpas i'r system sydd i fod i'w diogelu.